OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 1341 (Cy. 138)

# ROAD TRAFFIC, WALES

# Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffin Sirol Powys/Sir Fynwy, Llangrwyne i Gylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder a Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mai 2014* |
| *Yn dod i rym* | *2 Mehefin 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y darn hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Mehefin 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffin Sirol Powys/Sir Fynwy, Llangrwyne i Gylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Cyfyngiadau Cyflymder a Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro) 2014.

**2.** (1.Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ffin sirol Powys/Sir Fynwy ger Lodge Culvert, Llangrwyne hyd at ochr ddwyreiniol Cylchfan Tarell, Aberhonddu;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 2 Mehefin 2014 ac sy’n dod i ben pan dynnir ymaith yr arwyddion traffig dros dro yn derfynol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio neu yrru unrhyw gerbyd neu beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio neu yrru unrhyw gerbyd neu beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 30 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio neu yrru unrhyw gerbyd neu beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 10 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio neu ganiatáu defnyddio unrhyw gerbyd ac eithrio cerbyd esempt yn y fath fodd â bod y cerbyd yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darn o’r gefnffordd tra bo’r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau a’r gwaharddiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**Parhad y Gorchymyn hwn**

**8.** Cyfnod parhau hwyaf y Gorchymyn hwn fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Mai 2014

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.